



Rhwydwaith
Cydgynhyrchu
Cymru

Co-production
Network
for Wales

Mesur yr hyn sy'n bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau
iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn



Rhifyn 2.1 Gorffennaf 2019



Mesur yr hyn sy'n Bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn

Beth yn union yw Mesur yr hyn sy'n Bwysig?

Teclyn syml ac ymarferol yw Mesur yr hyn sy'n Bwysig i unrhyw un sy'n gyfrifol am werthuso, i'w helpu gofyn y cwestiynau iawn, gan y bobl iawn, yn y ffordd iawn.

Mae llwyth o arweiniad ar gael i sefydliadau mewn perthynas â gwerthuso, ond gall fod yn anodd llywio ffordd drwy'r holl wybodaeth. Nid peth hawdd yw gwahaniaethu rhwng cyngor da a drwg, gwybod pa gyngor sy'n berthnasol a ddim yn berthnasol, a gwybod yn union sut y dylech gasglu'r data sydd ei angen er mwyn dechrau'r broses gwerthuso. Trwy wneud y penderfyniad anghywir, gall arwain at roi pwysau ar adnoddau mewnol, methu sicrhau gwerth da am arian, methu darparu'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd eu hangen arnoch, ac achosi dryswch, anghyfleustra neu bryder ymhlith y bobl rydych yn eu cefnogi.

Mae Mesur yr hyn sy'n Bwysig yn helpu trwy greu cysylltiadau rhwng rhestr o ddulliau casglu data cyfredol ac a drefnwyd (pob un yn gysylltiedig â sefydliadau dibynadwy a pharchus, cyfarwyddyd ac adnoddau a gyhoeddwyd) i gyfres syml o gwestiynau, gan ofalu eich bod yn cael hyd i ffordd gywir i gasglu data a mesur effaith wrth werthuso'ch gweithgareddau.

Gall Mesur yr hyn sy'n Bwysig ...

- Eich helpu adnabod y dulliau casglu data sydd fwyaf addas i'ch anghenion chi, anghenion y bobl rydych yn eu cefnogi, ac anghenion y bobl sy'n eich cefnogi chi.
- Eich helpu cael hyd i wybodaeth ac adnoddau uchel eu hansawdd, dibynadwy ac ymarferol o ran casglu data.
- Eich helpu rhoi tystiolaeth glir o safbwynt eich agwedd tuag at gasglu data, ac ansawdd y data a ddarperir.
- Ategu agwedd bresennol eich sefydliad tuag at werthuso.

Ni fydd Mesur yr hyn sy'n Bwysig yn ...

- Disodli'r angen ar gyfer agwedd gyfannol ac ystyriol tuag at werthuso o fewn eich sefydliad.
- Rhestru pob ffordd bosib o gasglu data.
- Eich helpu cadarnhau'r hyn y dylid ei werthuso yn y lle cyntaf.
- Gwarantu y bydd y data a gesglir yn dangos yr effaith roeddech wedi gobeithio ei gwireddu!



Mesur yr hyn sy'n Bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn

Sut mae'n gweithio

CAM1: Dewis eich cwestiwn gwerthuso

Mae'n rhaid i'ch cwestiwn ymwneud â:

- Y **gweithgaredd** a gynhaliwyd neu rydych yn ei gynnal,
- Y **newidiadau a'r effaith** sy'n deillio o'r gweithgaredd, neu sydd wedi digwydd ac,
- Y **buddiolwyr** y mae'r newidiadau a'r effaith yn gysylltiedig â nhw.

Er enghraifft:

'A wnaeth y gweithdy wella hyder y cyfranogwyr?'

'A yw'r ymgyrch ar gyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo pendantrwydd yn y gymuned leol?'

'Pa effaith mae'r ffordd newydd o weithio'n ei chael ar fuddiolwyr mewn oed?'

Os bydd eich prosiect yn cynnwys nifer o weithgareddau gwahanol, gyda newidiadau ac effeithiau gwahanol ar gyfer buddiolwyr gwahanol, dylid defnyddio cwestiwn gwerthuso ar gyfer pob agwedd wahanol, a dylech gwblhau'r camau hyn (a'r tablau ar Dudalen 4 a Thudalen 9) ar gyfer bob un ohonynt.

Ar ôl ei ddewis, ysgrifennwch eich cwestiwn yn y blwch a ddarperir ar Dudalen 4.

CAM 2: Ystyried eich pobl, eich diben a phroses

Dylid ystyried budd pennaf y bobl fydd yn cyfrannu at eich gwerthusiad, y bobl fydd yn destun y gwerthusiad, a'r sawl fydd yn ei gyflawni. Weithiau fe welwch fod yr un bobl yn dod o dan fwy nag un o'r grwpiau hyn.

Dewiswch eich atebion yn y categorïau Pobl, Diben a Phroses er mwyn llunio eich cod 3 llythyren, a'i nodi yn y blychau ar Dudalen 4. Lle bo'n briodol, dylid dewis yr atebion hyn trwy eu trafod *gyda'r* bobl sy'n cymryd rhan yn eich gwerthusiad, nid ar eu cyfer nhw'n unig.

CAM 3: Adnabod eich opsiynau casglu data

Chwiliwch am eich cod 3 llythyren yn y tabl ar Dudalennau 5 a 6 i adnabod pa fath o werthusiad sydd ei angen arnoch, a'r opsiynau casglu data sydd ar gael ichi. Bydd angen ystyried mwy o opsiynau casglu data trwy ddefnyddio'r matrices ar Dudalennau 7 ac 8.

CAM 4: Cadarnhau a chofnodi'ch penderfyniad

Dylid cadarnhau a chofnodi'ch penderfyniad trwy lenwi'r Blaenddalen Gwerthuso ar Dudalen 9. Gweler Tudalen 10 ar gyfer enghraifft o Daflen a lenwyd.



Mesur yr hyn sy'n Bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn

Eich cwestiwn gwerthuso yw ...

Ar gyfer pob categori (pobl, diben, proses) dewiswch yr UN opsiwn sydd mwyaf perthnasol i'ch cwestiwn.

POBL: Y peth pwysicaf o safbwynt eich gweithgaredd a'r bobl a gefnogir:

A

Maent yn cyd-ddylunio yn ogystal â chymryd rhan yn y gwerthuso.

B

Maent yn cael amser i roi adborth manwl ac agored am unrhyw beth.

C

Maent yn gallu cynnig adborth syml penodol ar brif bwytiau.

D

Mae eu profiadau'n destun arsylwi ac yn hysbysu'r gwerthusiad.

E

Nid yw'r gwerthusiad yn eu cynnwys yn bersonol mewn unrhyw ffordd.

DIBEN: Y peth pwysicaf o safbwynt y bobl yn eich gwerthusiad yw ...

F

Mae'n eu hysbysu am y ffordd o ddylunio a chyflenwi eich gweithgaredd.

G

Mae'n eu hysbysu am y newidiadau a'r effeithiau a gafodd eich gweithgaredd.

H

Mae'n rhoi amcangyfrif ariannol o werth eich gweithgaredd.

PROSES: Y peth pwysicaf i'r bobl sy'n cyflawni'r gwerthusiad yw ...

I

Ei fod yn weddol gyflym ac yn rhwydd ei wneud.

J

Defnyddir amser ac adnoddau'n casglu tystiolaeth gyfoethog a manwl.

Defnyddiwch gyfuniad o'r llythrennau a ddewiswyd gennych o bob opsiwn i lunio cod 3 llythyren ac i ystyried y dulliau casglu data mwyaf addas i'ch anghenion.



Mesur yr hyn sy'n Bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn

COD	DISGRIFIAD TECHNEGOL	MAE'CH OPSIYNAU'N CYNNWYS ...
AFI	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith cyfranogol a chydgyhyrchiol tuag at werthusiad ffurfiannol neu werthusiad o broses, sy'n bosib ei gyflawni'n weddol gyflym a rhwydd.	Arfarniad 360 Gradd, Newid y Templed Cofnodion, Cyfeirwyr Cymunedol.
AFJ	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith cyfranogol a chydgyhyrchiol tuag at werthusiad ffurfiannol neu werthusiad o broses, ac yn awyddus i ymrwymo amser ac adnoddau i gasglu tystiolaeth gyfoethog a manwl	Adrodd ar Ddeilliannau Cydweithredol, Dadansoddi Llwybrau Effaith Cyfranogol, Y Newid Mwyaf Sylweddol a mwy ...
AGJ	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith cyfranogol a chydgyhyrchiol, tuag at werthusiad ar sail deilliannau neu effaith, ac yn awyddus i ymrwymo amser ac adnoddau i gasglu tystiolaeth gyfoethog a manwl.	Gwerthusiad Datblygiadol, Mapio Deilliannau, Y Newid Mwyaf Sylweddol a mwy ...
BFI	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith ansoddol ac ymgynghorol, tuag at broses ffurfiannol neu werthusiad o broses, sy'n bosib ei gyflawni'n weddol gyflym a rhwydd.	Arfarniad 360 Gradd, Ymholiad Gwerthfawrogl.
BGI	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith ansoddol ac ymgynghorol, tuag at werthusiad ar sail deilliannau neu effaith, sy'n bosib ei gyflawni'n weddol gyflym a rhwydd.	Ymholiad Gwerthfawrogl, Technoleg Man Agored, Caffi'r Byd a mwy ...
BGJ	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith ansoddol ac ymgynghorol, tuag at werthusiad ffurfiannol neu werthusiad o broses, ac yn awyddus i ymrwymo amser ac adnoddau i gasglu tystiolaeth gyfoethog a manwl.	Gwerthusiad Llorweddol, Ethnograffeg.
CGI	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith ansoddol ac ymgynghorol, tuag at werthusiad ar sail deilliannau neu effaith, sy'n bosib ei gyflawni'n weddol gyflym a rhwydd .	Ysgrifennu Creadigol, Pwyntiau Cyswllt Emosiynol, Seren Deilliannau a mwy ...
CHJ	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith ansoddol ac ymgynghorol, tuag at werthusiad economaidd, ac yn awyddus i ymrwymo amser ac adnoddau i gasglu tystiolaeth gyfoethog a manwl.	Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad.



Mesur yr hyn sy'n Bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn

COD	DISGRIFIAD TECHNEGOL	GELLIR YSTYRIED DEFNYDDIO ...
DFI	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith ansoddol ac ymgynghorol tuag at werthusiad ffurfiannol neu werthusiad o broses, sy'n bosib ei gyflawni'n weddol gyflym a rhwydd.	Cyfeirwyr Cymunedol, Grŵp Ffocws.
DGI	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith ansoddol ac ymgynghorol, tuag at werthusiad ar sail deilliannau neu effaith, sy'n bosib ei gyflawni'n weddol gyflym a rhwydd.	Grŵp Ffocws, Asesu Prif Hysbyswyr, Astudiaeth Arhydol a mwy ...
DGJ	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith ansoddol ac ymgynghorol, tuag at werthusiad ar sail deilliannau neu effaith, ac yn awyddus i ymrwymo amser ac adnoddau i gasglu tystiolaeth gyfoethog a manwl.	Astudiaeth Arhydol, Dyluniad Lled-Arbrofol, Hap-dreial Rheolaeth a mwy ...
EFI	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith arsylwadol neu arbrofol, tuag at werthusiad ffurfiannol neu werthusiad o broses, sy'n bosib ei gyflawni'n weddol gyflym a rhwydd.	Newid y Templed Cofnodi.
EFJ	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith arsylwadol neu arbrofol, tuag at werthusiad ffurfiannol neu werthusiad o broses, ac yn awyddus i ymrwymo amser ac adnoddau i gasglu tystiolaeth gyfoethog a manwl.	Gwerthusiad Realydd, Meta-Ethnograffeg.
EGI	Rydych chi am fabwysiadu dull o waith arsylwadol neu arbrofol, tuag at werthusiad ar sail deilliannau neu effaith, sy'n bosib ei gyflawni'n weddol gyflym a rhwydd.	Monitro Data, Data Eilaidd, Dadansoddi Cyfryngau Cymdeithasol a mwy ...
???	<p>Methu cael hyd i'ch cod? Gall fod oherwydd nad oes cod sy'n cyfateb yn union i'ch anghenion chi. Gellir ystyried :</p> <ul style="list-style-type: none"> • A oedd y gweithgaredd a ddewiswyd i fod yn destun y gwerthusiad yr un cywir? A oedd yn rhy eang neu'n rhy benodol? • Ydych chi'n ystyried y bobl anghywir fel ffocws y gwerthusiad • Ydych chi'n gwneud y gwerthusiad am y rhesymau anghywir? • Ydy'r adnoddau ar gael ichi gwblhau'r gwerthusiad ar hyn o bryd? • A fyddai'n bosib gweithio gyda phartner gwerthuso i'ch helpu? <p>Gellir ystyried y dewis gyfan o ddulliau casglu data i ystyried eich opsiynau.</p>	

Mae'r rhestr lawn o ddulliau casglu data'n cychwyn ar y dudalen nesaf.



Mesur yr hyn sy'n Bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn

DULL	POBL					DIBEN			PROSES	
	A	B	C	D	E	F	G	H	I	J
Gwerthusiad 360 Gradd		✓				✓	✓		✓	
Ymholiad Gwerthfawrogol		✓				✓	✓		✓	
Map o'r Corff			✓				✓		✓	
Cipio Eiliadau Achosol				✓			✓		✓	
Astudiaethau Rheoli Achos					✓		✓			✓
Newid y Ttempld Cofnodi					✓	✓			✓	
Dewis Lluniau			✓				✓		✓	
Adrodd ar Ddeilliannau	✓					✓	✓			✓
Cydweithredol				✓		✓	✓		✓	
Cyfeiriwr Cymunedol			✓				✓		✓	
Ysgrifennu Creadigol			✓				✓		✓	
Astudiaeth Drawstoriadol				✓			✓		✓	
Gwerthusiad Datblygiadol	✓					✓	✓			✓
Mannau Cyswllt Emosiynol			✓				✓		✓	
Meta-Ethnograffeg					✓	✓	✓			✓
Grŵp Ffocws				✓		✓	✓		✓	
Ffurflenni			✓				✓		✓	
Gwerthusiad Llorweddol		✓					✓			✓
Systemau Gwybodaeth					✓		✓		✓	
Hanes Arloesi	✓					✓				✓
Cyfweliad		✓					✓		✓	
Asesu Prif Hysbyswyr				✓			✓		✓	
Astudiaeth Arhydol				✓			✓			✓
Monitro data					✓		✓		✓	
Newid Mwyaf Sylweddol	✓					✓	✓			✓
Arsylwi				✓			✓		✓	
Technoleg Man Agored		✓					✓		✓	
Mapio Deilliannau	✓					✓	✓			✓
Seren Deilliannau			✓				✓		✓	

Mae'r rhestr lawn o ddulliau casglu data'n parhau ar y dudalen nesaf.

7.



Mesur yr hyn sy'n Bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn

DULL	POBL					DIBEN			PROSES	
	A	B	C	D	E	F	G	H	I	J
Gwerthusiad Cyfranogol	✓					✓	✓			✓
Dadansoddi Llwybrau Effaith Cyfranogol	✓					✓	✓			✓
Anecdod Personol		✓					✓		✓	
Gwriad Cadarnhaol			✓				✓		✓	
Dyluniad Lled-arbrofol				✓			✓			✓
Holiadur			✓				✓		✓	
Hap-dreial Rheolaeth				✓			✓			✓
Gwerthusiad Realydd					✓	✓				✓
Map Cysylltiadau			✓				✓		✓	
Data Eilaidd					✓		✓		✓	
Astudiaeth Achos Unigol				✓			✓		✓	✓
Dadansoddi Rhwydweithiau Cymdeithasol					✓		✓		✓	
Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad			✓					✓		✓
Arolwg			✓				✓		✓	
Wal Glud			✓				✓		✓	
Dweud Straeon		✓					✓		✓	
Cyfes neu Ddatganiadau Cadarnhaol			✓				✓		✓	
Astudiaethau Synthesis					✓		✓			✓
Adolygiadau Systematig					✓		✓			✓
Adborth Cyffyrddol			✓				✓		✓	
Caffi'r Byd		✓					✓		✓	

Llenwch y blaendalen gwerthuso ar y dudalen nesaf i gadarnhau'ch dewis. Gweler Tudalen 10 am esiampl o daflen a gwblhawyd.

Ewch at [Sylfaen Gwybodaeth Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru](#) am wybodaeth, arweiniad ac adnoddau sy'n ymwneud â'r holl ddulliau casglu data a gyfeirir atynt gan declyn Mesur beth sy'n Bwysig.



Mesur yr hyn sy'n Bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn

BLAENDDALEN GWERTHUSO

Ein cwestiwn gwerthuso yw ...					
Ein dewis dull o gasglu data yw ...					
Pobl: Mae'r dull yn briodol i'r bobl a gefnogir gan ein gweithgaredd oherwydd ...					
Diben: Mae'r dull yn briodol i'r bobl sy'n rhan o'n gwerthusiad oherwydd ...					
Proses: Mae'r dull yn briodol i'n hanghenion a'n gallu oherwydd ...					
Diogelu Data: Mae'r dull yn cydymffurfio â'n polisi oherwydd ...					
Safonau'r Diwydiant: Mae'r dull yn cydymffurfio â safonau ein diwydiant oherwydd ...					
Safonau Tystiolaeth: Mae'r dull yn ategu tystiolaeth yn unol â safon Nesta ' Standards of Evidence '.	<i>Lefel 1 Gallwch ddisgrifio'r hyn rydych yn ei wneud a pham mae'n bwysig, mewn ffordd synhwyrol, ddeallus ac argyhoeddiadol.</i>	<i>Lefel 2 Rydych yn cipio data sy'n dangos newid cadarnhaol, ond ni fedrwrch gadarnhau taw chi achosodd hyn.</i>	<i>Lefel 3 Gallwch ddangos achosiaeth trwy ddefnyddio grŵp rheoli neu gymharu.</i>	<i>Lefel 4 Mae gennych o leiaf un gwerthusiad dyblygol annibynnol sy'n cadarnhau'r casgliadau hyn.</i>	<i>Lefel 5 Mae gennych lawlyfrau, systemau a gweithdrefnau i sicrhau dyblygiad cyson.</i>

Enw	Dyddiad	Llofnod
-----	---------	---------



Mesur yr hyn sy'n Bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn

BLAENDDALEN GWERTHUSO: ESIAMPL

Ein cwestiwn gwerthuso yw ...	Ym mha prif ffyrdd y newidiodd ein rhaglen gweithgareddau i blant dan 10 oed eu hagweddau tuag at 'deulu'?				
Ein dewis dull o gasglu data yw ...	Ysgrifennu creadigol (a gynhaliwyd fel rhan o bob sesiwn trwy gydol ein rhaglen gweithgareddau).				
Pobl: Mae'r dull yn briodol i'r bobl a gefnogir gan ein gweithgaredd oherwydd ...	Maent wedi mynegi diddordeb mewn tasgau ysgrifennu creadigol, a bydd y rhain yn cyfoethogi, yn hytrach na thynnu oddi wrth, eu profiad cyffredinol o'r gweithgaredd. Bydd y gweithgaredd yn hwyll iddyn nhw ei gyflawni, ac yn caniatáu iddynt rannu eu teimladau mewn ffordd syml sy'n addas ac yn briodol.				
Diben: Mae'r dull yn briodol i'r bobl sy'n rhan o'n gwerthusiad oherwydd ...	Mae angen dealltwriaeth eang, gyffredinol o'r newidiadau a achoswyd gan ein rhaglen gweithgareddau, a gallwn ddangos tystiolaeth o hyn trwy'r prif themâu sy'n rhan o'r tasgau ysgrifennu creadigol a gyflawnwyd yn ystod camau gwahanol y rhaglen.				
Proses: Mae'r dull yn briodol i'n hanghenion a'n gallu oherwydd ...	Gellir ei gyflawni'n weddol gyflym a rhwydd; gellir ei gyflawni'n effeithiol gyda'r amser a'r gyllideb sydd ar gael inni, ac mae ein holl aelodau staff yn gallu cyflawni'r gwerthusiad i safon uchel.				
Diogelu Data: Mae'r dull yn cydymffurfio â'n polisi oherwydd ...	Bydd yr holl straeon yn ddiennw, dim ond prif themâu (ond nid manylion penodol) fydd yn cael eu cofnodi, a byddwn yn cael caniatâd rhiant ar ddechrau'r rhaglen gweithgareddau.				
Safonau'r Diwydiant: Mae'r dull yn cydymffurfio â safonau ein diwydiant oherwydd ...	Mae'n cydymffurfio â'r canllawiau cyhoeddedig, ac fe'i derbynnir fel dull o weithio cyffredin o fewn ein sector.				
Safonau Tystiolaeth: Mae'r dull yn ategu tystiolaeth yn unol â safon Nesta 'Standards of Evidence'	<i>Lefel 1</i> Gallwch ddisgrifio'r hyn rydych yn ei wneud a pham mae'n bwysig, mewn ffordd synhwyrol, ddeallus ac argyhoeddiadol.	<i>Lefel 2</i> Rydych yn cipio data sy'n dangos newid cadarnhaol, ond ni fedrwrch gadarnhau taw chi achosodd hyn.	<i>Lefel 3</i> Gallwch ddangos achosiaeth trwy ddefnyddio grŵp rheoli neu gymharu.	<i>Lefel 4</i> Mae gennych o leiaf un gwerthusiad dyblygol annibynnol sy'n cadarnhau'r casgliadau hyn.	<i>Lefel 5</i> Mae gennych lawlyfrau, systemau a gweithdrefnau i sicrhau dyblygiad cyson.

Enw	Dyddiad	Llofnod
-----	---------	---------



Mesur yr hyn sy'n Bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn

Rhestr Termau

Defnyddir y termau technegol canlynol i ddisgrifio dulliau gwerthuso a mathau o werthuso yn nheclyn Mesur yr hyn sy'n Bwysig:

Dulliau Gwerthuso		Mathau o Werthuso <i>(Ffynhonnell: Data Cymru)</i>	
Dulliau Cyfranogol	Sy'n cynnwys rhanddeiliaid rhaglen neu bolisi yn y broses gwerthuso. <i>(Ffynhonnell: Better Evaluation)</i>	Gwerthuso Ffurfiannol	Asesu dichonoldeb a photensial rhaglen, polisi neu ymyrraeth.
Dulliau Cydgynhyrchiol	Yn rhannu grym a chyfrifoldeb gyda rhanddeiliaid a chydweithio mewn cysylltiadau cyfartal, cytbwys a gofalgwr. <i>(Ffynhonnell: Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru)</i>	Gwerthuso Proses	Asesu pa mor effeithiol y mae rhaglen, polisi neu ymyrraeth yn cael, neu wedi cael, ei weithredu
Dulliau Ansoddol	Yn canolbwyntio ar ansawdd gweithgaredd (teimladau a barn oddrychol yn aml iawn) yn hytrach na maint (ffeithiau a ffigurau gwrthrychol).	Gwerthuso ar sail Deilliannau	Asesu i ba raddau mae rhaglen, polisi neu ymyrraeth wedi cyflawni'r deilliannau a gynlluniwyd
Dulliau Ymgynghorol	Gwahodd pobl i rannu eu profiadau trwy ryw fath o broses ffurfiol a strwythuredig.	Gwerthuso Effaith	Ymchwilio i ac asesu effeithiau tymor hwy, boed yn fwriadol ai peidio, rhaglen, polisi neu ymyrraeth
Dulliau Arsylwadol	Sy'n cynnwys arsylwi ar bobl yn uniongyrchol yn eu hamgylchedd neu weithgaredd nodweddiadol, gan achosi cyn lleied o ymyrraeth â phosib i'r amgylchedd neu weithgaredd dan sylw.	Gwerthusiadau Economaidd	Asesu gwerth am arian rhaglen neu ymyrraeth
Dulliau Arbrofol	Ymchwilio i achos ac effaith trwy drin agweddau ar amgylchedd neu weithgaredd (newidion) mewn ffordd y gellir ei hailadrodd, gydag amodau a reolir yn ofalus.		



Mesur yr hyn sy'n Bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn

Cyfeiriadau

Daw'r dulliau casglu data a gyfeirir atynt ym Mesur yr hyn sy'n Bwysig o'r ffynonellau canlynol:

- **Better Evaluation.** 2014. Rainbow Framework. Ar gael yma: <https://www.betterevaluation.org/sites/default/files/Rainbow%20Framework.pdf>
- **Bond.** 2015. Impact Evaluation: A guide for commissioners and managers. Ar gael yma: https://www.bond.org.uk/sites/default/files/resource-documents/impact_evaluation_guide_0515.pdf
- **Charity Catalogue.** 2019. Forms & Surveys. Ar gael yma: <https://charitycatalogue.com/collection/forms-surveys/>
- **Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru.** 2018. Pebyll o gwmpas tân gweryll: dangos tystiolaeth o drawsnewid. Ar gael yma: <https://info.copronet.wales/tents-around-a-campfire-evidencing-transformation/>
- **Data Cymru.** 2019. Gwerthuso - Data Cymru. Ar gael yma: <http://www.data.cymru/eng/evaluation>
- **Evaluation Support Scotland.** 2019. Evaluation methods and tools. Ar gael yma: <http://www.evaluationsupportscotland.org.uk/resources/evaluation-methods/>
- **Nesta.** 2019. Using Research Evidence: A Practical Guide. Ar gael yma: https://media.nesta.org.uk/documents/Using_Research_Evidence_for_Success_-_A_Practice_Guide.pdf
- **NPC.** 2016a. Stories and numbers: Collecting the right impact data. Ar gael yma: <https://www.thinknpc.org/resource-hub/stories-and-numbers-collecting-the-right-impact-data/>
- **Sport Educate.** 2017. Sporteducate Toolkit. Ar gael yma: <http://sported.org.uk/wp-content/uploads/2017/11/Sporteducate-Toolkit-FINAL-Low-res.pdf>
- **Think Local Act Personal.** 2011. Does it work? A guide to evaluating community capacity initiatives. Ar gael yma: https://www.thinklocalactpersonal.org.uk/_assets/Resources/BCC/Does_it_work.pdf
- **Triangle.** 2019. Seren Deilliannau. Ar gael yma: <http://www.outcomesstar.org.uk/>



Mesur yr hyn sy'n Bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn

Nodiadau

Am fwy o wybodaeth ynghylch Mesur yr hyn sy'n Bwysig, cysylltwch â hello@copronet.wales

Cyhoeddwyd y ddogfen hon gan [Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru](#), sefydliad annibynnol sy'n gweithio i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru trwy gydgyhyrchu a chyfranogiad er budd dinasyddion, eu cymunedau, y gweithwyr proffesiynol sy'n cyflenwi gwasanaethau o fewn y sector statudol a'r trydydd sector a'r cyrff cyhoeddus sy'n eu cefnogi. Fe'i seiliwyd ar gysyniad gwreiddiol a ddatblygwyd gan Anne Collis (Barod) a chyfranodd seminarau 'Pebyll o gwmpas tân gwerysill', a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, yn Ebrill a Gorffennaf 2018 ato hefyd.



Rhwydwaith
Cydgyngyrchu
Cymru

Co-production
Network
for Wales

Mesur yr hyn sy'n bwysig

Gwerthuso sy'n gofyn y cwestiynau
iawn gan y bobl iawn yn y ffordd iawn



Rhifyn 2.1 Gorffennaf 2019